- 3.14 Ystyriwn mai hwn yw'r dull gorau o gymhell cofrestryddion i hybu enwau parth yn y ddau ofod parth, gan fydd y ffi cofrestru ostyngedig yn creu cymhelliaid ariannol i gofrestryddion farchnata enwau parth .cymru a .wales fel bwndel i gofrestreion, a fydd yn helpu i roi hwb i fabwysiadu'r ddau Barth ac felly'n hyrwyddo natur ddwyieithog cymuned Cymru. Cafwyd adborth cadarnhaol ar y dull hwn gan y prif gofrestryddion sydd wedi'u hachredu gan ICANN.
- 3.15 Oherwydd natur gystadleuol y farchnad fanwerthu, disgwyliwn y bydd y rhan fwyaf o weithredwyr manwerthu yn adlewyrchu'r gostyngiad hwn yn y prisiau a osodant i'w cwsmeriaid. Mae hyn yn debygol o ostwng y gost gyffredinol i sefydliadau sy'n ceisio cael presenoldeb yn y ddau Barth, a bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod y pris manwerthu ar gyfer cofrestru yn y naill gofod parth neu'r llall yn cael ei gynnig ar delerau tebyg.
- 3.16 Er na fydd rhwymedigaeth i gofrestru'r un enw parth yn .cymru a .wales, bydd y gostyngiad yn helpu i leihau costau i'r cofrestrwyr hynny sydd â hunaniaeth ddwyieithog neu sy'n pryderu am ddiogelu eu brand.
- 3.17 Ein bwriad yw helpu i sicrhau bod yr enwau parth .cymru a .wales yn cael eu prisio'n gystadleuol yn y farchnad enwau parth ehangach. Fe fydd ein prisiau cyfanwerthol yn ystyried y ffaith fod angen i ni adennill y buddsoddiad o flaen llaw sylweddol sy'n angenrheidiol i sefydlu'r gofodau parth newydd o fewn cyfnod rhesymol ac yng nghyd-destun ein statws dielw. Disgwyliwn i'r prisiau cyfanwerthol hyn fod yn gystadleuol o gymharu â Phyrth Lefel Uchaf cyffredinol newydd eraill.

#### *Ffioedd ymgeisio yn ystod y cyfnodau lansio*

- 3.18 Gan fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r broses lansio, bydd ffioedd ymgeisio ychwanegol ar gyfer cofrestru yn ystod y cyfnodau lansio wedi eu nodi ym mharagraff 5.7 isod.

#### ***Bydd y cofrestrfeydd yn agored ac ni fydd cyfyngiadau cofrestru'n berthnasol iddynt***

#### ***Ein safbwyt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012***

- 3.19 Yn ein cais i ICANN, gwnaethom gynnig y byddai'n ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer enw parth .cymru neu .wales fodloni un o ddau faen prawf cofrestru, sef naill ai:
- cyfeiriad post wedi'i ddilysu sydd â chod post yng Nghymru; neu
  - ddatganiad sy'n amlinellu eu cysylltiad â Chymru, a fyddai'n cael ei gynnwys yn y cofnod WHOIS ar gyfer yr enw parth.

- 3.20 Ar ôl ystyried y cynnig hwn gyda'n Grŵp Cyngori a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru, gwnaethom benderfynu bod y risgiau canlynol ynghlwm wrth fynnu datganiad ynghylch cysylltiad:
- 3.20.1 Creu disgwyliad camarweiniol ynglŷn â'r meinu prawf ar gyfer dal enw part .cymru neu .wales oherwydd na chynigiwyd erioed y byddai cynnwys datganiad cysylltiad ymgeisydd yn cael ei fonitro.
  - 3.20.2 Gwneud y broses gofrestru'n agored i gamddefnydd, er enghraift pe byddai cofrestrai'n gwneud datganiad amherthnasol neu sarhaus wrth gofrestru enw part, byddai angen cynnwys hwnnw yn y cofnod WHOIS ar gyfer yr enw part.
- 3.21 Roeddem o'r farn ei bod yn well i'r ddua ofod parth weithredu fel cofrestrfeydd agored heb ofynion ychwanegol.

### **Ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012**

- 3.22 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (66%) wedi ateb o blaid cofrestrfa agored, roedd y sylwadau a roddwyd yn dangos bod 11% o'r rhai hynny a atebodd o blaid cofrestrfa agored yn ffafrio rhyw fath o gyfyngiad.
- 3.23 Roedd yr ymatebwyr a oedd yn ffafrio cofrestrfa agored yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn teimlo:
  - y byddai gosod cyfyngiadau yn anymarferol i gofrestryddion ac yn cynyddu'r costau;
  - y byddai gorfodi cyfyngiadau yn anodd i Nominet ac yn cynyddu'r costau; ac
  - nad oedd yn eglur pwy fyddai mewn sefyllfa i farnu cysylltiad darpar gofrestrai â Chymru.
- 3.24 O'r 40% o ymatebwyr a oedd yn ffafrio cyfyngiad ar gymhwysedd, mynegwyd amrywiaeth eang o safbwytiau ynglŷn â pha fath o gyfyngiad y dylid ei osod:
  - 3.24.1 Roedd rhai yn dadlau y dylai pob cofrestrai fod â chod post yng Nghymru neu, o ran busnesau, y gallu i ddangos eu bod yn cynnal busnes yng Nghymru hyd yn oed os nad oedd ganddynt bresenoldeb ffisegol yng Nghymru.
  - 3.24.2 Roedd rhai yn dadlau y dylai'r cyfyngiadau fod yn berthnasol i'r cyfnod lansio neu'r 12 mis cyntaf ar ôl i'r parthau fod ar gael yn gyffredinol.
  - 3.24.3 Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylai cofrestrwyr nad ydynt yng Nghymru ddarparu datganiad o gysylltiad â Chymru (yn debyg i'n cais cychwynnol i ICANN).
  - 3.24.4 Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'r weithdrefn datrys anghydfod yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru herio busnesau nad ydynt yng Nghymru am enwau part, ac awgrymodd eraill y dylai'r cofrestriadau (yn enwedig y rhai hynny yn .cymru) fod ar gael i wefannau yn y Gymraeg yn unig.

### **Ein dadansoddiad a chasgliad**

- 3.25 Fel yr amlinellwyd gennym yn y ddogfen ymgynghori, ein nod i'r parthau newydd yw y dylent ddarparu lle ar gyfer cymdeithas Cymru ar y rhyngrwyd, lle i Gymru gyfarch y byd a lle i'r byd gyfarch Cymru.

- 3.26 Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r polisiau a fabwysiadwn fod yn gynaliadwy yn ariannol fel eu bod yn denu cofrestrwyr posibl ac fel bod y costau cofrestru a chostau sefydlu'r parthau yn cael eu lledaenu ar draws nifer fawr o gofrestrwyr.
- 3.27 Yn ein barn ni, mae dwy broblem yn gysylltiedig â chyflwyno mein prawf cymhwysedd:
- 3.27.1 Yn gyntaf, mae cyflwyno mein prawf cymhwysedd yn cynyddu costau cydymffurfio (e.e. bydd angen i ni asesu a yw darpar gofrestrai'n bodloni'r mein prawf ac fe allai fod angen cynnal proses apêl). Mewn gwirionedd, o'r mein prawf cymhwysedd posibl a awgrymwyd gan yr ymatebwyr, dim ond y cyfyngiad yn seiliedig ar leoliad ffisegol (e.e. y gofyniad ar gyfer cod post yng Nghymru) fyddai'n ymarferol ei weithredu.
  - 3.27.2 Yn ail, nid yw mein prawf cymhwysedd yn mynd i'r afael â'n nod o greu lle cynhwysol i gymdeithas Cymru ar y rhyngrwyd gan eu bod yn allgáu'r rhai hynny sy'n ceisio cysylltu eu hunain â Chymru ond nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru (fel y gymuned ar wasgar) a busnesau sydd am dargedu marchnad yng Nghymru ond nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru.
- 3.28 O ganlyniad, rydym wedi penderfynu y byddwn yn gweithredu'r ddau ofod part fel cofrestrfeydd agored heb ofynion cymhwysedd. Rydym wedi diwygio ein cais i ICANN i adlewyrchu'r newid hwn i'r polisi a chymeradwywyd y newid hwnnw ar 28 Hydref 2013.<sup>10</sup>

### ***Bydd cofrestru'n digwydd yn yr "ail lefel"***

- 3.29 Mae cofrestru yn yr ail lefel yn golygu bod part gwefan i'r chwith o'r dot olaf (e.e. example.wales), tra bod enwau part trydedd lefel yn golygu bod part gwefan i'r chwith o'r dot olaf ond un (e.e. example.co.wales).

### ***Ein safbwynt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012***

- 3.30 Yn y ddogfen ymgynghori, gwnaethom gynnig bod enwau part yn cael eu cofrestru fel parthau ail lefel yn .cymru a .wales. Gwnaethom gynnig hefyd y dylai'r parthau categori ail lefel sy'n bodoli o dan .uk (e.e. gov.uk, police.uk ac nhs.uk), a'u parthau Cymraeg cyfatebol, gael eu gosod ar "restr neilltuedig" o enwau part na fyddant ar gael i'r cyhoedd eu cofrestru. Byddai hyn yn caniatáu i'r sefydliadau sector cyhoeddus perthnasol ddefnyddio'r parthau ail lefel hyn fel y gwelant orau.
- 3.31 Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnig ein bod yn llunio cytundebau i atal parthau trydedd lefel rhag cael eu gwerthu (e.e. example.jones.cymru) gan gofrestrwyr i drydydd partïon, ond na fyddem yn cyfyngu'r defnydd o barthau trydedd lefel at ddibenion anfasnachol.

### ***Ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012***

- 3.32 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (58%) yn ffafrio cofrestru enwau part yn yr ail lefel. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cofrestru enwau part yn yr ail lefel, ond roeddent hefyd yn dadlau dros ddefnyddio parthau categori ail lefel ar gyfer cyrff swyddogol, fel gov.wales, er mwyn osgoi drysu defnyddwyr.
- 3.33 Yn ogystal â hyn, roedd 72% o'r ymatebwyr o blaids atal gwerthu enwau part trydedd lefel.

<sup>10</sup> Gellir gweld y newidiadau i'n cais i ICANN yn <https://gtldresult.icann.org/application-result/applicationstatus/applicationchangehistory/1420>.

## **Ein dadansoddiad a chasgliad**

- 3.34 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, mynegwyd cefnogaeth gyffredinol dros gofrestru yn yr ail lefel, ond roedd yr ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â dryswch neu gamddefnydd pe na byddai'r fframwaith yn darparu ar gyfer y parthau categori ail lefel "swyddogol" cyfarwydd a ddefnyddir yn y lle part .uk.
- 3.35 Rydym ni o'r farn bod yr adborth hwn yn rhoi mwy o bwys i'n cynigion i neilltuo'r parthau categori ail lefel sydd eisoes yn bodoli o dan .uk a'r cyfeithiadau Cymraeg swyddogol o'r parthau hyn. Er enghraifft, byddwn yn neilltuo 'police' a 'heddlu' yn y ddau ofod part.
- 3.36 Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio gov.wales a llyw.cymru i helpu defnyddwyr i adnabod yn eglur enwau part Llywodraeth Cymru a chyrff swyddogol eraill.
- 3.37 Byddwn yn symud ymlaen â'n cynnig i atal cofrestrwyr rhag gwerthu parthau trydedd lefel i drydydd partïon trwy gynnwys cymal priodol yn ein telerau ac amodau safonol. Fel yr amlwgwyd yn yr ymgynghoriad, o ystyried y cynnydd sylweddol mewn parthay lefel uchaf o dan raglen Parthau Lefel Uchaf cyffredinol ICANN, nid ydym o'r farn y bydd angen cofrestrfeydd masnachol sy'n cynnig enwau parth trydedd lefel yn y lleoedd part .cymru a .wales. Mae'r polisi hwn yn unol â'n polisi ar gyfer cofrestriadau ail lefel yn .uk.
- 3.38 Gallai unrhyw achos o dorri ein telerau ac amodau arwain at atal cofrestriadau dros dro neu ei ganslo, a byddwn yn cymryd camau priodol yn erbyn unrhyw gofrestrai y canfyddir ei fod yn gwerthu is-barthau i drydydd partïon. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ni fydd y polisi hwn yn cyfyngu ar ddefnydd anfasnachol o barthau trydedd lefel gan gofrestreion.

### ***Byddwn yn gweithredu ein polisiau diogelwch a dilysu arfaethedig***

#### **Ein safbwynt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012**

- 3.39 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, gwnaethom ofyn pedwar cwestiwn allweddol am bolisiau diogelwch a dilysu data cofrestrwyr:
- A oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gofrestryddion ddilysu gwybodaeth cofrestrwyr a gyflwynir fel data WHOIS ar yr adeg gofrestru.
  - A oedd yr ymatebwyr yn credu bod angen i cofrestrwyr, cofrestryddion, neu Nominet gymryd unrhyw gamau diogelwch neu ddilysu ychwanegol.
  - A oedd yr ymatebwyr yn credu y dylem gyflwyno mesurau diogelwch y tu hwnt i DNSSEC ar gyfer enwau part .cymru a .wales.
  - A oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion mewn perthynas â geiriau sarhaus a chynnwys anghyfreithlon.
- 3.40 Gwnaethom gynnig y dylid mynnu bod cofrestryddion yn dilysu'r wybodaeth a ddarperir gan gofrestrai ar yr adeg gofrestru, a fyddai'n sail i'r cofnod ar gronfa ddata WHOIS. Byddai'r gofyniad hwn yn cael ei orfodi trwy gyfrifoldeb cytundebol ar gofrestryddion o dan y cytundeb cofrestrfa-cofrestrydd.
- 3.41 Gwnaethom hefyd gynnig:
- 3.41.1 Y byddem yn arwyddo'r parthau .cymru a .wales er mwyn galluogi DNSSEC fel nodwedd ddiogelwch ddewisol ar gyfer enwau parth.



3.41.2 Na fyddem yn cyfyngu ar gofrestru geiriau sarhaus y tu hwnt i'r graddau sy'n ofynnol gan y gyfraith.

3.41.3 Y byddai gennym bolisiâu cadarn ar gamddefnydd a diddymu, a fyddai'n ein galluogi i gydnabod cwynion, ymchwilio iddynt a cheisio eu hunioni mewn modd amserol.

### **Ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012**

3.42 Cafwyd ymateb cymysg i'r pedwar cwestiwn a ofynnwyd gennym:

3.42.1 Roedd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr (91%) yn cytuno y dylai cofrestryddion ddilysu data WHOIS ar yr adeg gofrestru.

3.42.2 Dim ond hanner yr ymatebwyr a gytunodd fod y mesurau dilysu a diogelwch arfaethedig yn ddigonol, a dywedodd 20% nad oeddent yn gwybod.

3.42.3 Pan ofynnwyd iddynt yn benodol pa un a ddylid cyflwyno mesurau diogelwch y tu hwnt i DNSSEC, dim ond 3% a ddywedodd "ie" tra bod 77% wedi dweud "na".

3.42.4 Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr (91%) yn cytuno â'n cynigion mewn perthynas â geiriau sarhaus a chynnwys anghyfreithlon.

### **Ein dadansoddiad a chasgliadau**

3.43 Ers cyhoeddi ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, mae ICANN wedi rhyddhau Cytundeb Achredu Cofrestryddion (**RAA**) newydd sy'n mynnu'n benodol bod cofrestryddion yn cydymffurfio â Manyleb Rhaglen Gywirdeb WHOIS sy'n datgan, ymhlið pethau eraill, bod yn rhaid i cofrestryddion ddilysu'r holl ddata a ddarperir iddynt gan gofrestrwyr (gan gynnwys enwau, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a chyfeiriadau post).

3.44 Yn sgil hyn, rydym wedi penderfynu y bydd gofynion yn cael eu cyflwyno ar gyfer dilysu data cofrestrwyr sy'n cyfateb i'r gofynion hynny a amlinellir yn y Cytundeb Achredu Cofrestryddion newydd.

3.45 Yn ogystal, mae gennym raglen ansawdd data helaeth i fonitro data cofrestrwyr ar gyfer enwau part .uk. Byddwn yn ymestyn y rhaglen hon i gynnwys data cofrestrwyr a ddarperir ar gyfer enwau part .cymru a .wales.<sup>11</sup>

3.46 Rydym hefyd wedi penderfynu y byddwn yn galluogi DNSSEC fel nodwedd ddiogelwch ddewisol ar gyfer enwau part, ond na fyddwn yn ei wneud yn orfodol. Mae'n amlwg nad yw DNSSEC yn briodol i bob gwefan, ond fe all fod yn fesur diogelwch ychwanegol defnyddiol i rai cofrestrwyr.

3.47 Ble rydym wedi cyflwyno nodweddion diogelwch ychwanegol ar gyfer y lle part .uk, megis y clo part<sup>12</sup>, rydymyn bwriadu, lle y bo'n briodol, efelychu'r rhain ar gyfer .cymru a .wales.

3.48 Yn olaf, gwnaethom ystyried pa un a ddylem gyfyngu cofrestriad geiriau neu fynegiadau sarhaus neu amhriodol wrth gofrestru enw part, ac os felly, i ba raddau y dylem wneud hynny. Ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori, cynhaliodd Nominet adolygiad o'r mater hwn yn y lle part .uk dan arweiniad y cyn Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, yr Arglwydd Ken

<sup>11</sup> Mae mwy o fanylion am ein rhaglen ansawdd data ar gael yn [www.nominet.org.uk/news/blog/next-step-our-drive-improve-data-quality](http://www.nominet.org.uk/news/blog/next-step-our-drive-improve-data-quality)

<sup>12</sup> Am ragor o wybodaeth am glo part gwelwch [www.nominet.org.uk/news/latest/nominets-new-domain-lock-option-offers-enhanced-security-uk-domains](http://www.nominet.org.uk/news/latest/nominets-new-domain-lock-option-offers-enhanced-security-uk-domains)

Macdonald QC. Ar 15 Ionawr 2014, gwnaethom gyhoeddi y byddem yn derbyn yr argymhellion a wnaed gan yr Arglwydd Macdonald ac ar 3 Ebrill 2014, wnaethom nodi sut byddem yn gweithredu'r camau canlynol<sup>13</sup>:

- 3.48.1 Sefydlu system sgrinio enwau part ar ôl cofrestru, o fewn 48 awr o gofrestru. Ni fydd Nominet yn caniatáu i enw parth cael ei gofrestru os yw'n cyrraedd dau faen prawf: yn gyntaf, os yw'n ymddangos, yn ôl pob golwg, i awgrymu, cynnwys neu hyrwyddo trosedd rhywiol difrifol ac yn ail, ble nad oes defnydd rhesymol na chyfreithlon ar gyfer y parth. Fe fydd enwau parth sy'n methu'r meinu prawf hwn yn cael eu hatal ac fe fydd y cofrestreion a'r cofrestrydd yn cael gwylod.
- 3.48.2 Ni fydd Nominet yn cyflawni unrhyw swyddogaeth o ran plismona cynnwys gwefannau. Os bydd enwau parth yn arwyddo cynnwys troseddol fel arall ac yn cael eu dwyn at sylw Nominet, byddwn yn atgyfeirio'r achosion hyn i'r heddlu i gymryd camau pellach, yn unol â'n polisi presennol.
- 3.48.3 Ni chaniateirdefnydd o enw parth .uk at ddibenion troseddol ac y bydd achos o'r fath yn arwain at atal dros dro neu ddatgofrestru.
- 3.49 Ar ôl rhannu adolygiad yr Arglwydd Macdonald â Llywodraeth Cymru, credwn y byddai'n briodol sefydlu'r un gweithdrefnau ar gyfer lleoedd parth .cymru a .wales, gan ychwanegu sgrinio ar gyfer enwau parth sy'n ymddangos fel petaent yn arwyddo neu'n annog troseddau rhywiol difrifol yn y Gymraeg.

## 4. Polisiau ieithyddol

***Bydd y lleoedd parth yn ddwyieithog, a bydd cofrestrwyr yn gallu dewis pa iaith i'w defnyddio ar eu gwefannau***

### **Ein safbwynt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012**

- 4.1 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, er mwyn sicrhau bod y parthau mor hyblyg a defnyddiol â phosibl, gwnaethom gynnig y bydd y ddua Barth .cymru a .wales yn gallu gweithredu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal â chynnwys gwybodaeth ysgrifenedig gwbl ddwyieithog, rydym yn cynnig y bydd ein gwasanaeth cwsmeriaid a'n gwasanaeth cyfryngu yn ddwyieithog ac y bydd y ddua Barth yn gallu cael enwau parth sy'n cynnwys llythrennau â marciau deiacritig.
- 4.2 Gwnaethom hefyd gynnig y dylai cofrestrwyr allu dewis pa iaith i'w defnyddio ar eu gwefannau ac ni wnaethom geisio gosod gofynion ieithyddol penodol fel amod cofrestru.

### **Ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012**

- 4.3 Mynegwyd cefnogaeth gref i'n dull o ymdrin â marciau deiacritig (gydag 89% o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig) ac i beidio â rheoleiddio cynnwys ieithyddol gwefannau (gyda 71% o'r ymatebwyr yn cefnogi ein cynnig).

---

<sup>13</sup> Gweler [www.nominet.org.uk/news/latest/nominet-update-registration-policy-light-lord-macdonald-review](http://www.nominet.org.uk/news/latest/nominet-update-registration-policy-light-lord-macdonald-review) a <http://www.nominet.org.uk/news/latest/nominet-formalises-approach-tackling-criminal-activity-uk-domains>



- 4.4 O'r 18 ymatebwyr a ddywedodd y dylai cyfyngiadau ieithyddol fod yn berthnasol, awgrymodd 13 yn y sylwadau testun y dylai'r part .cymru gael ei ddefnyddio ar gyfer cynnwys Cymraeg yn unig ac y dylai'r part .wales gael ei ddefnyddio ar gyfer cynnwys Saesneg yn unig. Roedd sylwadau Comisiynydd y Gymraeg yn gwrth-ddweud hyn yn uniongyrchol:

*"[m]ae Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 1993 yn sefydlu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gydradd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru [...]*

*Mae dogfen y Comisiynydd, 'Technoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyried y Gymraeg', yn amlinellu canllawiau ac arfer da ar gyfer dylunio gwefannau dwyieithog. Nodir y dylid cymryd camau rhagweithiol i gynnig dewis o iaith ar ddechrau ymweliad y defnyddiwr. Yn unol â'r canllawiau hyn, disgwyli id i enw part Cymraeg a'r enw Saesneg cyfatebol, e.e. www.computers.wales a www.cyfrifiaduron.cymru, arwain at dudalen lle y cynigir dewis o iaith yn hytrach na bod enw part Saesneg yn arwain at wefan Saesneg neu ran Saesneg gwefan, a bod enw part Cymraeg yn arwain at wefan Cymraeg neu ran Cymraeg gwefan. Wrth gofrestru enwau part, argymhellwn y dylech dynnu sylw'r rhai sy'n cofrestru a'r rhai sy'n dylunio gwefannau at y canllawiau hyn yn ymwneud â datblygu gwefannau dwyieithog."*

- 4.5 Nid oedd yr un o'r ymatebwyr a gefnogodd gyflwyno cyfyngiadau ieithyddol wedi cynnig dull ymarferol o orfodi gofynion yn ymwneud â chynnwys. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y dylem ganiatáu i gynnwys gwefannau gael ei osod gan "rymoedd y farchnad".
- 4.6 Awgrymodd Comisiynydd y Gymraeg hefyd, gan y byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn Gymraeg, y dylem Iunio Cynllun Iaith Gymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiadau gwirfoddol yngylch sut y byddwn yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r cyhoedd.

### **Ein dadansoddiad a chasgliad**

- 4.7 Ar ôl ystyried yr ymatebion, yn enwedig ymateb Comisiynydd y Gymraeg, ynghyd â'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gorfodi cyfyngiadau ar gynnwys pe byddem yn eu mabwysiadu, rydym wedi penderfynu:
- 4.7.1 Y bydd y ddua barth yn ddwyieithog ac wedi'u cynllunio i ymdrin â marciau deiacritig mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr un cofnodion enw gweinydd yn cael eu dychwelyd ni waeth pa un a osodir acen ar nod ai peidio (h.y. bydd grŵp.cymru yn mynd i'r un lle â grwp.cymru).
  - 4.7.2 Cyflawnir hyn trwy ganiatáu i gofrestrwyr gofrestru (heb gost ychwanegol) un amrywiad ar eu henw part presennol fel "drych-barth" (h.y. bydd cofrestrai grŵp.cymru yn gallu cofrestru grwp.cymru fel drych-barth).
  - 4.7.3 Bydd manylion llawn sut y bydd y drych-barthau hyn yn gweithio yn cael eu hamlinellu ar ein gwefan fel ein "polisi Enw Part Rhyngwladol (IDN)", fel sy'n ofynnol gan ICANN.
  - 4.7.4 Ni fyddwn yn gosod cyfyngiadau neu ofynion ieithyddol ar barthau .cymru a .wales, sy'n golygu y bydd gofrestrwyr yn gallu dewis pa iaith i'w defnyddio ar eu gwefannau.
- 4.8 Yn ogystal â hyn, bwriadwn gyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg gwirfoddol yn ystod 2014.

## 5. Lansio'r parthau

*Bydd rhestr o enwau neilltuedig na fydd y cyhoedd yn gallu eu cofrestru, byddwn yn gweithredu Rhaglen Sylfaenwyr i hybu lansio'r parthau newydd a bydd y broses lansio'n cael ei chyflwyno'n raddol er mwyn sicrhau bod deiliaid hawliau'n cael eu hamddiffyn*

### Ein safbwyt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012

5.1 Yn y ddogfen ymgynghori, gwnaethom gynnig:

- 5.1.1 Bod rhestr enwau neilltuedig yn cael ei chreu na fydd y cyhoedd yn gallu eu cofrestru. Gwnaethom gynnig bod y rhestr enwau neilltuedig yn cael ei chyfyngu i gyrrf statudol yng Nghymru neu ar draws y Deyrnas Unedig a'r cyrrf hynny a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol. Fodd bynnag, gwnaethom ddatgan ein bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â phriodoldeb y meini prawf hyn a'r ffordd orau o lunio'r rhestr o gyrrf y dylid neilltuo eu henwau. Gwnaethom hefyd gynnig neilltuo enwau'r sefydliadau yn Gymraeg a Saesneg ac yn y ddwy gofrestrfa .cymru a .wales.
- 5.1.2 Byddem yn reciwtio 50 sefydliad i ymuno â Rhaglen Sylfaenwyr ochr yn ochr â'r sefydliadau hynny a ddarparodd lythyrau cefnogaeth i geisiadau Nominet i ICANN. Yr egwyddor sylfaenol sydd wrth wraidd y Rhaglen Sylfaenwyr yw bod sefydliadau sylfaenu yn cytuno i ymrwymo i ddefnyddio a hyrwyddo'r gofodau parth newydd yn ddychwelyd am gael yr enw parth a ffefrir ganddynt wedi'i neilltuo iddynt.
- 5.1.3 Byddem yn lansio'r gofodau parth gyda'i gilydd mewn proses lansio ar y cyd a fyddai'n cynnwys pedwar cam, sef:
  - cyfnod hawliau cofrestredig;
  - cyfnod blaenorriaethu busnesau Cymreig (cyfeirir ato yn y ddogfen ymgynghori fel y 'cyfnod hawliau anghofrestredig');
  - cyfnod arwerthu enwau pris uchaf a chyfnod Landrush; ac
  - argaeledd cyffredinol.

### Ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012

5.2 Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennym ynglŷn â lansio'r enwau parth:

- 5.2.1 Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr (86%) yn cytuno â'n cynnig y dylai'r rhestr enwau neilltuedig gael ei chyfyngu i enwau cyrrf statudol a'r rhai hynny sydd â Siarter Frenhinol.
- 5.2.2 Roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (68%) yn cefnogi ein cynigion ar gyfer Rhaglen Sylfaenwyr, ac ychydig a fynegodd unrhyw bryderon penodol ynglŷn â'r rhaglen.
- 5.2.3 Roedd llawer o'r ymatebwyr (83%) yn cefnogi'r broses lansio bedwar cam arfaethedig, ac roedd mwyafrif mawr (72%) yn cytuno y bydd y broses yn amddiffyn buddiannau cyfreithlon deiliaid hawliau. O ystyried yr ymatebion gyda'i gilydd:

- Roedd yn ymddangos bod yr ymatebwyr yn deall yr angen am gyfnod hawliau cofrestredig (sy'n ofynnol gan ICANN) a'n cyfnod blaenoriaethu busnesau Cymreig ('hawliau anghofrestredig') arfaethedig.
- Awgrymodd dau ymatebwr y dylid rhoi blaenoriaeth o ran cofrestru i gofrestrwyr enwau part .uk presennol (a gofodau parth eraill, fel .com) y tu hwnt i'r broses hawliau anghofrestredig.
- Dywedodd dau ymatebwr eu bod yn anghytuno â defnyddio arwerthiannau enw pris uchaf.
- Pwysleisiodd dau ymatebwr y dylai hawliau anghofrestredig fod yn berthnasol i sefydliadau nad ydynt yn masnachu, fel elusennau.

### **Ein dadansoddiad a chasgliadau**

#### *Rhestr enwau neilltuedig*

- 5.3 Bydd ein rhestr enwau neilltuedig yn cynnwys enwau y mae'n ofynnol i ni eu neilltuo gan ICANN a'r parthau ail lefel presennol yn .uk. Yn ogystal, rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gwblhau eu hargymhellion ar gyfer yr enwau parth a'r sefydliadau i'w hychwanegu at y rhestr enwau neilltuedig. Yn y pen draw, Nominet fydd yn gyfrifol am benderfynu pa enwau i'w gosod ar y rhestr neilltuedig, ond byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r argymhellion gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sefydliadau yn y categorïau canlynol:
- 5.3.1 Sefydliadau sy'n gyrrff statudol yn y Deyrnas Unedig neu yng Nghymru.
- 5.3.2 Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad fel a ddynodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 5.3.3 Sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cynnwys ar y rhestr enwau neilltuedig, cyn belled â bod y canlynol yn wir:
- bod y sefydliad wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol; a/neu
  - fod y sefydliad yn gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru; a/neu
  - fod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn credu bod rheswm polisi cyhoeddus cryf dros gynnwys enw parth penodol ar y rhestr.
- 5.4 Fel egwyddor gyffredinol, yr enwau parth ar y rhestr neilltuedig fydd enwau'r sefydliadau dan sylw. Ni fyddwn yn cynnwys enwau neu eiriau cyffredinol, gan gynnwys enwau gofodau, ar y rhestr neilltuedig oni bai eu bod yn berthnasol i weithgarwch a ddarperir yn benodol gan y sector cyhoeddus neu os oes rheswm polisi cyhoeddus cryf dros wneud hynny.

#### *Rhaglen Sylfaenwyr*

- 5.5 Ers ymgynghori â rhanddeiliaid, rydym wedi penderfynu symud ymlaen â'n cynnig i greu Rhaglen Sylfaenwyr a byddwn yn cyhoeddi manylion y rhaglen hon pan fyddant wedi'u cwblhau'n derfynol.
- 5.6 Mae gofynion Dull Amddiffyn Hawliau ICANN ar gyfer Parthau Lefel Uchaf cyffredinol newydd yn galluogi gweithredwyr cofrestrfa i gyflwyno rhaglen lansio safonol neu rraglen unigryw ,



cyn belled â bod ICANN wedi cymeradwyo'r rhaglen o flaen llaw. Rydym yn bwriadu defnyddio rhaglen lansio safonol ICANN fel nodir yn nogfennaeth Mecanwaith Diogelu Hawliau.

*Proses lansio bedwar cam*

- 5.7 Ers ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, mae ICANN wedi cyhoeddi'r prosesau terfynol ar gyfer amddiffyn hawliau deiliaid nod masnach yn ystod y broses o gyflwyno Parthau Lefel Uchaf cyffredinol newydd. O ystyried hyn, rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r cynnig a gyflwynwyd gennym yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, a byddwn yn lansio'r gofodau part mewn pedwar cam dros gyfnod o chwe mis.
- 5.8 Cam 1 – cyfnod hawliau cofrestredig (60 niwrnod):
  - 5.8.1 Bydd y cyfnod hawliau cofrestredig yn caniatáu i ddeiliaid nodau masnach cymwys, a awdurdodwyd gan Dŷ Clirio Nodau Masnach (**TMCH**) ICANN, wneud cais am eu henwau part cyfatebol. Mae'r TMCH yn caniatáu i ddeiliaid nod masnach ddilysu eu nod masnach yn ganolog yn hytrach na gorfol gwneud hynny droeon ar gyfer pob Parth Lefel Uchaf cyffredinol newydd.<sup>14</sup>
  - 5.8.2 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, gwnaethom gynnig y byddai deiliaid nod masnach cofrestredig yn gallu dilysu eu nod masnach trwy naill ai'r TMCH neu drwy broses ddilysu Nominet ei hun. Ar ôl adolygu manylion terfynol y TMCH, ac o ystyried ei natur sefydledig, rydym wedi penderfynu nad oes angen i ni weithredu ein proses dilysu nodau masnach ein hunain, ac na fyddai hynny'n effeithlon ychwaith.
  - 5.8.3 Lle y ceir dau hawliad dilys neu fwy am yr un enw part yn ystod y cam hwn, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r deiliad hawliau sy'n gallu darparu tystiolaeth o ddefnyddio ei nod masnach mewn perthynas â chynnig diffuant o nwyddau neu wasanaethau yng Nghymru. Os nad oes unrhyw barti yn gallu darparu tystiolaeth o ddefnydd yng Nghymru, neu os yw mwy nag un parti yn gallu gwneud hynny, byddwn yn defnyddio arwerthiant fel dull penderfynu terfynol.
  - 5.8.4 Bydd enw part a gofrestrwyd yn ystod y cam hwn yn cael ei ddirprwyo i'r cofrestrai ar ddiwedd y cyfnod yn unig.
- 5.9 Cam 2 – Cyfnod blaenoriaethu busnesau Cymreig (60 niwrnod):
  - 5.9.1 Bydd y cyfnod blaenoriaethu busnesau Cymreig (cyfeirir ato yn y ddogfen ymgynghori fel y 'cyfnod hawliau anghofrestredig') yn caniatáu i ddeiliaid hawliau cofrestredig neu anghofrestredig wneud cais am eu henwau part cyfatebol, lle na chofrestrwyd yr enw part yn ystod y cyfnod hawliau cofrestredig.
  - 5.9.2 Byddwn yn mynnu prawf bod yr hawl gymwys yn cael ei defnyddio yng Nghymru yn ystod y cam hwn. Bydd yr Asiant Dilysu a benodir gan Nominet yn dilysu'r dystiolaeth ddogfennol i brofi bod gan yr ymgeisydd hawl gymwys yng Nghymru.
  - 5.9.3 Os caiff mwy nag un cais ei ddilysu yn ystod y cam hwn ar gyfer yr un enw part, byddwn yn defnyddio arwerthiant fel dull penderfynu terfynol.
  - 5.9.4 Bydd enw part a gofrestrwyd yn ystod y cam hwn yn cael ei ddirprwyo i'r cofrestrai ar ddiwedd y cyfnod yn unig.

<sup>14</sup> Mae'r safonau ar gyfer cynnwys yn y TMCH ar gael yn [http://newgtlds.icann.org/en/about/trade mark-clearinghouse](http://newgtlds.icann.org/en/about/trade-mark-clearinghouse).

5.10 Cam 3 – Cyfnod arwerthu enwau pris uchaf a chyfnod landrush (60 niwrnod):

- 5.10.1 Yn ystod y cam hwn, bydd parthau pris uchaf yn cael eu harwerthu i unrhyw barti sydd â diddordeb. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, gall unrhyw bartion sydd â diddordeb geisio cofrestru enwau parth nad ydynt eisoes wedi'u cofrestru yn ystod y cyfnodau hawliau cofrestredig neu blaenoriaethu busnesau Cymreig.
- 5.10.2 Os oes un ymgeisydd yn unig ar gyfer enw parth, fe'i dyfernir yn uniongyrchol i'r ymgeisydd. Os oes mwy nag un ymgeisydd, byddwn yn cynnal arwerthiant lle y caiff yr ymgeiswyr gynnig am y parth.
- 5.10.3 Bydd enw parth a gofrestrwyd yn ystod y cam hwn yn cael ei ddirprwyo i'r cofrestrai ar ddiwedd y cyfnod yn unig.

5.11 Cam 4 – Argaeledd cyffredinol:

- 5.11.1 Pan fydd camau un i dri wedi'u cwblhau, bydd y parthau .cymru a .wales ar gael i bawb ar sail y cyntaf i'r felin am ffi safonol, a byddant ar gael yn syth ar ôl cofrestru.

*Arwerthiannau*

- 5.12 Yn ystod y cyfnod hawliau cofrestredig, y cyfnod blaenoriaethu busnesau Cymreig a'r cyfnod landrush, mae'n rhaid i bob ymgeisydd aros tan ddiwedd y cyfnod cyn cael gwybod a gaiff gofrestru'r enw parth y cyflwynwyd cais amdano. Os oes mwy nag un cais diliys ar gyfer yr un enw parth, bydd yr holl geisiadau perthnasol yn cael eu cyflwyno i ddarparwr arwerthiant dewisedig Nominet a fydd yn gweithredu'n fras fel a ganlyn:

  - 5.12.1 Bydd y darparwr arwerthiant yn gwahodd yr holl ymgeiswyr perthnasol i gymryd rhan yn y broses arwerthu.
  - 5.12.2 Bydd y darparwr arwerthiant yn cynnal arwerthiannau penagored, ar-lein lle y dyfernir yr enw parth i'r cynigiwr uchaf.
  - 5.12.3 Os mai dim ond un ymgeisydd sy'n cofrestru i gymryd rhan mewn arwerthiant, dyfernir yr enw parth i'r ymgeisydd hwnnw am y pris sylfaenol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

*Enwau pris uchaf*

- 5.13 Bwriadwn gyhoeddi rhestr o enwau pris uchaf i'w harwerthu yn ystod y cyfnod landrush pan fydd y cyfnodau lansio blaenorol wedi dod i ben.
- 5.14 Mae'r enwau parth pris uchaf wedi'u cynllunio i'n helpu ni i adennill y costau ymlaen llaw sylweddol sy'n gysylltiedig â sefydlu'r gofodau parth. Bydd pris cadw yn cael ei osod ar enwau pris uchaf mewn arwerthiant.

***Byddwn yn cynnig gwasanaeth cyfryngu rhad ac am ddim er mwyn cynorthwyo i ddatrys anghydfod ac yn trefnu gwasanaeth cyfryngu Cymraeg pan fydd angen***

***Ein safbwynt yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012***

- 5.15 Yn ymgynghoriad mis Rhagfyr 2012, gwnaethom ddatgan bod rheolau ICANN ar gyfer Parthau Lefel Uchaf cyffredinol yn mynnu bod pob cofrestrydd yn dilyn UDRP a Pholisi Atal Cyflym



Unffurf (**URS**) ICANN. Er nad yw hyn yn atal deiliaid hawliau rhag defnyddio dulliau eraill o ddatrys anghydfod, mae'n golygu bod yn rhaid i gofrestrydd ddatrys anghydfod o dan yr UDRP neu'r URS cyn y gall ganslo, atal neu drosglwyddo enw parth. Mae Parthau Lefel Uchaf cyffredinol yn wahanol yn hyn o beth i Barthau Lefel Uchaf cod gwlad, fel .uk, sy'n gallu mabwysiadu eu gweithdrefnau datrys anghydfod eu hunain.

- 5.16 I ategu'r broses hon, gwnaethom gynnig darparu gwasanaeth cyfryngu rhad ac am ddim yn Gymraeg a Saesneg i geisio datrys anghydfodau cyn iddynt gyrraedd y cam UDRP neu URS. Roeddem o'r farn y byddai'r gwasanaeth cyfryngu yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddod i gytundeb llwyddiannus heb fod angen defnyddio proses datrys anghydfod ffurfiol.

### **Ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad**

- 5.17 Roedd mwyafrif cryf o'r ymatebwyr (94%) yn cefnogi ein cynnig ar gyfer gwasanaeth cyfryngu, ac ychydig iawn o sylwadau a gawsom ar y cynnig hwn. Dywedodd un ymatebwr fod yr UDRP yn llai teg na Gwasanaeth Datrys Anghydfod Nominet (a ddefnyddiwn ar gyfer enwau part .uk), ond roedd yn cydnabod gofyniad ICANN ar gyfer UDRP. Dywedodd ymatebwr arall y byddai cyfryngu rhwng parti Saesneg a pharti Cymraeg yn arwain at gostau cyfieithu i Nominet.

### **Ein casgliad**

- 5.18 Ar sail cefnogaeth eang i'n gwasanaeth cyfryngu arfaethedig, bwriadwn symud ymlaen â'r cynnig a byddwn yn dod o hyd i wasanaeth cyfryngu Cymraeg y gellir ei ddefnyddio pan fo'r angen. Nid ydym yn disgwl y bydd llawer o alw am gyfryngwr sy'n siarad Cymraeg, a byddwn yn adolygu unrhyw gostau cyfieithu sy'n deillio o'r gwasanaeth cyfryngu yn barhaus rhag ofn y bydd angen i ni addasu'r polisi hwn.

## **6. Casgliad**

- 6.1 Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac sydd wedi ein helpu i ddatblygu ein cynigion ar gyfer .cymru a .wales. Credwn y bydd y penderfyniadau a wnaed gennym yn creu fframwaith polisi cryf y gall .cymru a .wales ffynnu o'i fewn.
- 6.2 Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen, bydd rhai manylion yn cael eu cwblhau'n derfynol ar ôl cynnal trafodaethau ychwanegol gydag ICANN a Llywodraeth Cymru. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddatblygiadau a chamau a gymerwn tuag at lansio .cymru a .wales trwy gofrestru yn [www.eincartrefarlein.org.uk](http://www.eincartrefarlein.org.uk). Gallai cofrestryddion sydd â diddordeb mewn gwerthu enwau parth sydd â diddordeb.cymru a .wales ddarganfod mwy yn <http://registrars.nominet.org.uk/namespace/cymru-wales>.

